# Llais Llandyrnog Voice

Mawrth 2025 – Cyfrol 10 – Rhifyn 6 £1

## Ddoe a heddiw

### Bore coffi llwyddiannus i'r Llais **Chwefror 2018**



Fore Sadwrn 3 Chwefror, cynhaliodd aelodau Pwyllgor Llais Fore Coffi llwyddiannus iawn yn y Stafelloedd Coco. Diolch o galon i bawb ddaeth yno, ac am yr holl roddion o gacennau a gwobrau raffl a gafwyd. Mae'r tîm yn ddiolchgar iawn am eich cymorth ac mae'n braf clywed fod y gwaith yn cael ei werthfawrogi. Gwnaed elw o £195 tuag at gostau cynhyrchu'r misolyn.

### Bore coffi llwyddiannus i'r Llais **Chwefror 2025**





Wrth edrych ar y llun o'r bore coffi yn y Ystafelloedd Coco yn 2018, gallwn weld y gwahaniaeth mawr sydd wedi dod yn sgil cael boreau coffi yn y neuadd. Diolch o galon i bawb a ddaeth i fore coffi 2025 a chyfrannu £453 tuag at y coffrau. Mae costau argraffu yn fwy na'r incwm a ddaw o hysbysebion, tanysgrifio a gwerthiant, ond mae cael copi lliw llawn bob mis yn werth y gost ychwanegol.



# Pytiau newyddion

Mae Teri a Julia, Hamdden Clwyd, wrth eu bodd i gyhoeddi genedigaeth eu hail ŵyr, Emlyn Theodore, brawd bach i Dylan.



Llongyfarchiadau hefyd i Billy-Jo (Celynog gynt) a Rob ar enedigaeth eu merch fach, Ottilie Rue, ac i Sharon a Kevin, ei nain a'i thaid balch.




Llongyfarchiadau hwyr iawn i Huw Foulkes, Fferm Pentrefelin ar ennill Gwobr Cymru Wledig gan YDCW. Rhoddwyd y wobr i'r fferm am ei dull ffermio atgynhyrchiol. Mae ganddo gynlluniau cyffrous ar gyfer y dyfodol – cynhyrchu caws Brefu Da a rhedeg cyfres o gyrsiau ar ddechrau fferm laeth feicro.

Llongyfarchiadau hwyr hefyd i'n colofnydd, Hazel Wright, ar ennill gwobr cyfraniad nodedig gan ei chyflogwyr, Jones Bros.

**Rhifau ffôn defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)

Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| 2il | 11.15 | Boreol Weddi |
| 5ed | 14.00 | Gwasanaeth dydd Mercher y Lludw |
| 9fed | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 16eg | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 23ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| 30ain | 11.15 | Cymun Bendigaid |

**Clwb Sgrabl**

Yn Ystafell Gymunedol y Siop bnawn dydd Iau, 20 Mawrth am 2 o'r gloch.



## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 12.30pm |
| Sul | 9.30am – 12pm |

07301 573362

01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm

Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.

Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 3ydd | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | 4ydd | Clwb Llyfrau, 10am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mer | 5ed | Cyfarfod pwyllgor Llais Llandyrnog, 7pm |
| Llun | 10fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Mer | 12fed | Undeb y Mamau, 2pm |
| Llun | 17eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 18eg | Clwb Llyfrau, 10am<br>Cyfarfod y Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mer | 19eg | Tuesday Club, 2pm |
| Iau | 20fed | Gweithdy crefftau, 6–9pm |
| Sad | 22ain | Grŵp crefftau, 10am–12pm |
| Llun | 24ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Llun | 31ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |





**Conservatories**



- Survey, supply and fit:
  - conservatories
  - orangeries
  - verandas
  - porches
  - windows
  - doors

**07546 911871**


# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sad 1af | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 3ydd | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Maw 4ydd | Cyfarfod Blynyddol y Clwb Merlota | 6–7.30pm |
| Mer 5ed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Gwe 7fed | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Sul 9fed | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 10fed | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Maw 11eg | Pwyllgor y Sioe Flodau | 7–8pm |
| Mer 12fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Gwe 14eg | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Llun 17eg | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Mer 19eg | Cymdeithas Hanes – hanes Thomas Pennant gan Paul Evans | 7–9pm |
| Gwe 21ain | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Llun 24ain | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Mer 26ain | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Gwe 28ain | Dosbarth dawnsio | 7–8pm |
| Llun 31ain | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |

**I hurio Neuadd y Pentre, cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com**

**I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk**

*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*

# Gwireddu breuddwyd (rhan 2)

**De Georgia ac Antarctica**

Fe gawson ni dridiau o fôr eitha garw (tonnau o 4–5m o uchder) ar ein ffordd i Dde Georgia. Wrth ddod at Greigiau Shag, yr arwydd cyntaf bod tir yn agos, cawson ni'n galw i fyny i'r dec i weld golygfa anhygoel – 76 o forfilod wedi hel o gwmpas ein llong. Morfilod cefngrwm, asgellog llwyd a sei – roedd golwg gyffyrddus arnyn nhw yn ein cwmni ac roedden ni'n gallu eu clywed yn cyfathrebu â'i gilydd wrth chwibanu a chanu. Roedden nhw bron iawn yn fwy swnllyd na'u cynulleidfa! Fe arhoson nhw gyda ni am ryw awr cyn mynd eu ffordd eu hunain.

Y bore wedyn, wrth i ni ddod i mewn i Fae Elsehul, roedd yr RRS Sir David Attenborough o'n blaenau ni (neu Boaty McBoatface!), un o'r cychod mwyaf blaengar yn y byd sy'n gwneud ymchwil yn y pegynau.

Mae De Georgia yn fynyddig, yn arw ac yn bellennig iawn. Mae'r mynydd uchaf, Mynydd Paget yn 9,629 tr. o uchder. Mae creigiau folcanig, gwenithfaen a gabro yn codi'n serth o'r môr ac mae rhewlifau, meysydd ia ac eira parhaol dros hanner yr ynys. Does neb yn byw ar yr ynysoedd o gwbl, ond mae planhigion ac anifeiliaid yn ffynnu. Roedd yr awyr yn llawn albatrosiaid, adar drycin, prioniaid, hwyaid lostfain, corhedyddion, sgiwennod a môr-wenoliaid. Yr amcangyfrif ydy bod 4 miliwn o forloi ffwr Antarctig ar yr ynys ac mae niferoedd morfilod yn dechrau cynyddu eto. Sefydlwyd yr orsaf hela morfilod gyntaf yn Grytviken yn 1904. Erbyn iddi gau yn 1965, roedd tua 175,250 o forloi wedi'u lladd a'u prosesu yno.

Cerddodd Steve 7km olaf taith enwog Syr Ernest Shackleton ar draws De Georgia – taith a gymerodd 36 awr i'r gŵr enwog, o Fae Fortuna i orsaf hela morfilod Stromness. Ond rhaid cyfadde bod yr amgylchiadau dipyn yn well na rhai Shackleton a'i griw!

Dros y tridiau nesa buon ni'n hwylio ar hyd arfordir y gogledd gan ymweld â Bae Salisbury Plain, Bae Fortuna, Stromness, Bae Hercules, Grytviken a Bae St Andrew, gan lanio mewn



cwch zodiac pan oedd hyn yn bosib. Roedd pengwin neu forlo ar bron bob modfedd o'r traethau, yn amrywio o ran maint, o forloi ifanc iawn i'r morlo eliffant 12 troedfedd. Roedden nhw'n cyd-dynnu'n iawn, ond petai un ohonyn nhw'n teimlo bygythiad, gallai'r sefyllfa newid ar amrantiad.

Ambell waith mae ymchwilwyr a staff gweinyddol neu filwrol Prydain yn aros yn Grytviken, ac ambell aelod o staff Amgueddfa De Georgia yn byw dros dro yno hefyd yn ystod yr haf. Fe aethon ni i'r amgueddfa, drwy'r hen adeiladau wedi rhydu ac olion y diwydiant morfila creulon, a threulio ychydig amser wrth fedd Shackleton – bu farw yma yn 1922.



Wrth i ni hwylio ar hyd ran olaf ochr ogleddol yr ynys, fe gawson ni dywydd nodedig iawn gyda chymylau mewn siapiau anhygoel uwchben y copaon, a harddwch naturiol De George yn ein syfrdanu. Ar ben draw dwyreiniol yr ynys, fe welson ni nifer fawr o fynyddoedd iâ ac enfys ar y gorwel. Roedd y môr y lliw mwyaf gwyrddlas welson ni erioed. Yna, fe hwylion ni i mewn i Ffiord Drygalski 7

# Gwireddu breuddwyd (rhan 2): parhad

milltir o hyd i Rewlif Risting ar ben y clogwyni garw a oedd yn codi dros 3,000 tr. allan o'r môr. Mae maint y rhain yn eich atgoffa ein bod ni'n fach iawn yn y byd naturiol hwn, yn llygedyn bach o fywyd byrhoedlog.

Ymlaen wedyn dros y tridiau nesaf ar y môr tuag at 'y cyfandir gwyn'. Rywle o'n blaenau ni, yn y niwl trwchus, roedden ni'n gwybod bod A23a, y mynydd iâ 1500 milltir sgwâr a dorrodd yn rhydd yn 1986. Yna, yn sydyn, cododd y niwl i ddatgelu'r mynydd rhew – roedd hi'n 3 awr o daith i hwylio heibio'r darn anferth hwn o iâ!

Roedd Antarctica'n galw. Drwy ffenest ein caban, gydag enfys arall yn creu ffrâm iddo, cawson ni ein cipolwg cyntaf ni o'r tir – Ynys Eliffant.

Y bore wedyn buon ni mewn caiacs ym Mae Telefon, Deception Island. Ceg llosgfynydd byw yw'r bae, ac felly roedd y dwr dwfn hwn yn cynhyrchu ffosydd gwres ynghyd â'r rhew, eira a niwl.

Yn ddiweddarach yr un dydd, buon ni'n ymweld â haid o bengwiniaid barfog ar Ynys Half Moon a chael y cyfle i fynd i mewn i'r dŵr a oedd ddim ond yn 0.4 °C,  a'i rannu â'r pengwiniaid – hynod iachusol a nofio gwyllt eithafol iawn!

Y diwrnod wedyn fe gawson ni sefyll ar gyfandir yr Antarctig yn Harbwr Orne ar ddiwrnod digwmwl, gyda'r morfilod yn dod i'r wyneb yn y bae yn agos at ein cychod zodiac – bydd y diwrnod hwnnw'n aros yn ein cof am weddill ein hoes! Cawson ni'r fraint o gymryd rhan mewn ambell arbrawf gyda'r gwyddonwyr a oedd ar y cwch, gan gynnwys hel plancton ar gyfer gwaith ymchwil prifysgolion amrywiol.

Roedd Steve wedi'i ddewis yn un o'r teithwyr lwcus i wersylla dros nos yn Leith Cove. Gadawodd gyda'r 25 arall wrth i'r llong adael. Doedd dim llawer o amser i gysgu yno , ac ar y lledred hwn roedd hi'n olau dydd drwy'r amser, gyda'r haul yn gostwng o dan y gorwel am ryw awr.



Dychwelodd y tywydd at yr wybrennau llwyd mwy nodweddiadol a chawodydd eira ar ddiwrnod olaf ein hanturiaethau. Cyrhaeddon ni Harbwr Nekoa, a chael ymweld â haid o bengwiniaid gentoo ac yno, gyda mynyddoedd iâ anferth o'n cwmpas, fe gawson ni daith arbennig mewn caiac. Roedd pengwiniaid Patagonia yn nofio o'n cwmpas ni yn chwilfrydig, a morlo yn gorffwys gerllaw ar greigiau. Ond roedden ni'n gallu clywed taranau'n dechrau wrth i ni badlo'n ôl at y llong – roedd hi'n bryd gadael.

Y noson honno fe aethon ni i'r pwynt pellaf i'r de at Sianel Lemaire, ond roedden ni'n methu mynd trwyddi gan fod mynydd rhew yn ein rhwystro. Felly trodd y llong a mynd yn ôl at y Llwybr Drake – tridiau ar fôr mwya garw'r byd cyn cyrraedd diogelwch Sianel Beagle a Ffiordydd Chile a gorffen ein 22 diwrnod o antur.

Hyd yn oed ym mannau mwyaf pellennig y byd fe allwch chi weld effeithiau newid hinsawdd. Mae Antarctica yn colli 150 biliwn tunnell o iâ y flwyddyn, ar gyfartaledd. Mae rhai o'r mynyddoedd rhew welson ni yn Ne Georgia ac ar y Gorynys Antarctig wedi bod yn colli hyd at 0.5km y flwyddyn ac mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar yr ecosystemau lleol.

Mae teithio yn brofiad hudol sy'n haeddu parch, ond a ninnau'n byw mewn lle tebyg i Landyrnog – does unman yn debyg i gartre.

*Steve a Helen Juckes-Hughes*

# Rheoli coetir

Cafwyd croeso i ddigwyddiad Cyswllt Fferm ar dir Glyn Arthur gan Mr a Mrs Rowley Williams a'u merch, Sarah Hammond ar 5 Chwefror. Hwylusydd y digwyddiad oedd Geraint Jones, arbenigwr Cyswllt Ffermio ar goedwigaeth, gyda'r siaradwyr gwadd Phil Morgan a Mike Richards. Mae'r rhain wedi gweithio gyda Geraint i ysgrifennu asesiad coetir, ac yn sgil hyn, gynllun rheoli coetir ar gyfer yr 20ha o goetir ar y fferm. Cafwyd sgyrsiau wrth gerdded y coetir, yn trafod rheoli coetir a manteision system goedwigaeth gorchudd di-dor. Cafwyd arddangosfa o sut i ddewis coed a'u mesur, gan roi cyfle i'r ffermwyr a oedd yn bresennol ddysgu am dechnegau reoli i wella ansawdd coed.



*Phil Morgan a Mike Richards yn dangos sut i ddewis coed a'u mesur.*



*Derwen hynafol wych gyda sbriws Norwy a llarwydd o'i chwmpas. Bydd ymyriad rheoli coetir yn gwarchod y goeden drwy dynnu'r conwydd oddi yno'n raddol.*

# Gild Trefoil

Daeth Mary Steel i roi cwis i ni, gan brofi ein gwybodaeth gyffredinol a sawl Tom, Dic a Harri roedden ni'n eu hadnabod. Y wobr oedd botymau siocled! Roedd dau aelod newydd yn bresennol. Cawson ni baned a sgwrs wedyn, a Karen Morris enillodd y raffl.




# Rysáit

## Kaiserschmarrn (crempog wedi'u sgramblo)

Os nad ydych chi'n giamstar ar fflipio'ch crempogau, beth am roi cynnig ar y rhain? Maen nhw'n boblogaidd iawn yn Awstria i frecwast.

**Cynhwysion:**
8 owns blawd plaen
2 lwy de o bowdwr pobi
1 llwy fwrdd o siwgr gwyn
8 owns hylif o lefrith
2 wy
1 llwy de o rin fanila
2 lwy fwrdd o fenyn, wedi'i doddi.

**I wneud y cytew:**
Mewn powlen ganolig ei maint, chwisgiwch yr wyau. Ychwanegwch y llefrith, y rhin fanila a'r menyn wedi toddi, a'u cymysgu'n dda.
Mewn powlen fawr, hidlwch y blawd a'r siwgr gyda'i gilydd. Gwnewch dwll yn y canol ac arllwyswch y cymysgedd gwlyb i mewn iddo. Chwisgiwch y cytew'n araf i gyfuno'r gwlyb a'r sych, gan weithio o ymyl y bowlen i mewn i'r canol.
Gadewch y cytew am 5 munud.

**Dull:**
Cynheswch radell neu badell fawr dros wres canolig. Pan fydd wedi cynhesu, irwch y badell. Tywalltwch y cytew, neu beth ohono, i'r badell – mae hyn yn dibynnu ar ei maint. Gadewch i'r grempogen fawr goginio am rhwng 30 eiliad a munud nes bydd crwst ysgafn yn dechrau ffurfio.
Codwch y grempogen yn ofalus gyda sbatwla silicon a'i blygu drosodd yn ei hanner, fel *quesadilla*. Wedyn torrwch  y grempogen gyda'r sbatwla yn ddarnau bach a mawr, gan adael i'r cytew sydd heb ei goginio lifo allan. Trowch nhw drosodd a'u symud o gwmpas nes bydd y darnau crempog wedi'u coginio trwyddyn nhw. Gwnewch hyn eto gyda gweddill y cytew.



**I'w gweini:**
Cadwch y crempog sydd wedi'u coginio yn gynnes wrth i chi goginio gweddill y cytew. Gweinwch nhw'n gynnes â siwgr eisin wedi'u sgeintio drostyn nhw, gyda saws afal neu wedi'u dipio mewn *compote* ffrwythau. Peidiwch â phoeni os nad oes golwg cystal â'r crempog yn y llun ar eich rhai chi – ystyr *Kaiserschmarrn* yw llanast yr ymerawdwr!


J & G
TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602

# Llan Llanast

Yn ein Llan Llanast cyntaf yn 2025, dysgom ni am rai o ddywediadau'r Iesu am ei hunan. Dywedodd ''Fi ydy'r bara sy'n rhoi bywyd'', felly gwnaethom ni rholiau bara i'w bwyta gyda'n pryd bwyd.  Dywedodd hefyd ''Fi ydy'r bugail da'', a gwnaethom ni addurno cacennau bach fel defaid a'u bwyta gyda'n pryd bwyd hefyd. Dywedodd ''Fi ydy'r winwydden go iawn'', a dyma ni'n creu gwinwydden â defnyddio siâp ein dwylo fel dail. Dywedodd ''Fi ydy golau'r byd'', felly gwnaethom ni lanterni.



Dywedodd hefyd ''Fi ydy'r ffordd, yr un gwir a'r bywyd'', ac felly gwnaethom ni ddrysfa, a'i dilyn i ddod o hyd i olau'r Iesu yn y canol.

Bydd ein sesiwn nesaf 9 Mawrth, felly pam na ddowch chi ac ymuno â ni am hwyl a chyfeillgarwch? Cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi.


**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk


# Capel y Dyffryn

Cynhaliwyd Ysgol Sul ar gyfer y plant ddydd Sul 16 Chwefror yng ngofal Glesni, Gwen a Siwan. Y stori oedd Arch Noa, a bu'r plant yn brysur efo'r gêm paru anifeiliaid yn erbyn y cloc, ac ymateb i 'Pa anifeiliaid oedd Noa wedi ei ddewis i fynd i mewn i'r arch?' a 'Pa fwyd fuasai'r anifeiliaid yn ei gael i fwyta ar yr arch?' Fe gafodd pawb hefyd gyfle i greu Arch Noa 3-D. Wedi hyn fe gafon ni helfa drysor anifeiliaid o gwmpas y festri a chyfle i neud posau pren neu jig-sos. A gorffen gydag amser chwarae, bisgedi a sudd oren. Bydd yr Ysgol Sul nesaf ymhen y mis.

**Y Gymdeithas** Nos Lun, 3 Chwefror cynhaliwyd Cwis yng ngofal Rich a Iona. Noson ddiddorol ac addysgiadol dros ben.

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 02/03 | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 09/03 | 11.00 | Parch. Aneurin Owen |
| 23/02 | 11.00 | Parch. Andras Iago |
| 30/03 | 17.00 | Dafydd Iwan |


Prompt Travel
Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week

Incorporating Vale Private Hire

01824 790485
07974 862027

Teithiau Prydlon
Tacsi a Hurio Preifat

# Tuesday Club

Cafodd yr aelodau weld lluniau o ryfeddodau mynydd Kilimanjaro yn Tanzania yng nghyfarfod mis Chwefror. Daeth Dafydd Roberts a Ron Davison i roi hanes eu taith i ddringo'r mynydd i godi arian at Prostate Cancer UK a LawCare, elusen iechyd meddwl i gyfreithwyr. Y llynedd, trefnwyd bore coffi yn neuadd y pentre i'w cefnogi yn eu hymdrech codi arian, a gododd £600 at yr achos. Amod tafod mewn boch trefnu'r bore coffi ar eu rhan oedd eu bod yn dod i roi hanes y daith i'r Tuesday Club, ac yn wir, fe gadwon nhw at eu gair.

Roedd dringo i fyny 19,340 troedfedd y mynydd yn anodd iawn, ac fe welson nhw sawl un a fethodd â chyrraedd y brig. I ddechrau, roedd rhaid cerdded trwy fforest law i gyrraedd eu gwersyll, cyn treulio tridiau yn cerdded a dringo i'r gwersyll cychwyn.



Cychwynnwyd ar ran ola'r daith i Frig Uhuru ganol nos a cherdded yn y tywyllwch tan tua 6 y bore nes cyrraedd Stella Point, un o dri brig y mynydd, ac wedyn yn eu blaenau at Frig Uhuru, y prif frig. Roedd yr amgylchiadau'n anodd iawn, a'r oerfel a salwch uchder yn achosi cryn drafferth, ond roedd eu hymgyrch i godi arian at ddwy elusen werthfawr yn rhoi hwb iddyn nhw barhau â'u taith.

Roedd y daith i lawr y mynydd yn anodd iawn hefyd – y tir dan draed yn llithrig iawn, a bu'n rhaid cerdded am ryw 18 awr heb lawer o seibiant, bwyd na dŵr i'w yfed.




Cyn hedfan adref, fe gawson nhw fynd am saffari am ddiwrnod fel gwobr am eu gwaith caled.

Cododd y daith £3,580 at Prostate Cancer Uk a LawCare, cyfanswm teilwng iawn.




Diolchwyd i Ron a Dafydd, a welir uchod yn gadael Parc Cenedlaethol Kilimanjaro, am eu cyflwyniad a chafodd yr aelodau baned a sgwrs wedyn. Bydd cyfarfod nesa'r clwb bnawn dydd Mercher, 19 Mawrth am 2 o'r gloch.

# Gair gan ein Cynghorydd Sir

Mi ges i gyfarfod â Luisa Citra o Adran Dai Cyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar i drafod y posibilrwydd o ailsefydlu rhandiroedd cymunedol ar y tir y tu ôl i'r arhosfa bysiau gyferbyn â Maes Llan a'r tu ôl i fyngalos Nant Glyd.

Mae'r darn yma o dir wedi'i ddefnyddio o'r blaen ar gyfer rhandiroedd gwelyau planhigion uwch, ond roedd diffyg cyflenwad dŵr ar y safle yn creu problemau. Ein bwriad nawr yw gosod cyflenwad dwr, rhoi gât newydd wrth y fynedfa, a sefydlu grŵp cymunedol bach i reoli'r safle.

Y bwriad yw agor y lle fel rhandir cymunedol, yn hawdd ei gyrraedd i bobl a fyddai'n hoffi tyfu eu cynnyrch eu hunain. Rydyn ni hefyd yn trafod y posibilrwydd o gynnwys grwpiau gwahanol, gan gynnwys Ysgol Bryn Clwyd, os oes diddordeb.

Mae'n gynnar iawn yn y broses, ond fe ddof i â'r newyddion i chi wrth i'r cynlluniau ddatblygu. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r cynllun, neu os oes gennych chi syniadau, mae croeso i chi gysylltu â fi - mae'r manylion ar dudalen 16.

Rydw i hefyd wedi cael cyfle i ddangos y mentrau newydd yn Llandyrnog i'n Haelod Seneddol, Becky Gittins. Roedd hi'n falch o glywed eu bod yn cydweithio'n agos â'r gymuned leol.










Llongyfarchodd Tŷ Ceffyl Bach a'r siop am gael eu henwebu am wobrau'r Cynghrair Cefn Gwlad.

*Y Cyngh. Merfyn Parry*

# Ysgol Bryn Clwyd

Mae pawb wedi bod yn yr awyr agored y mis hwn. Mae’r Dosbarth Iau wedi bod yn paratoi ar gyfer y Gwanwyn trwy blannu pys pêr a llwyni ffrwythau. Mae Dosbarth y Babanod wedi ymweld â Llyn Brenig i weld a oedd y cychod bach roedden nhw wedi eu gwneud yn gallu arnofio.



Fe orffennodd Dosbarth y Babanod y pwnc ‘Newidiadau’ yn y ffordd orau, gydag ymweliad gan Mr Jones, cyn-ddisgybl yr ysgol! Roedden ni am wybod sut mae ein hysgol wedi newid ers ei gyfnod o. Mae sawl newid wedi bod dros y blynyddoedd – y gwersi, y wisg ysgol, y buarth chwarae, y teganau, y dechnoleg! Os oes gennych chi straeon neu luniau o orffennol ein hysgol, anfonwch nhw i’r ysgol – bydden ni wrth ein boddau yn eu cael nhw.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 brynhawn ardderchog gyda’u cyd-ddisgyblion Blwyddyn 6 o Ysgol Gellifor, yn gweld sioe Ysgol Brynhyfryd, Matilda.

Mae’r holl ysgol yn paratoi ar gyfer yr eisteddfod ar-lein, lle bydd y disgyblion yn cystadlu yn erbyn ysgolion ar draws Cymru ar-lein. Yr wythnos hon, rydym ni wedi bod yn canolbwyntio ar y cystadlaethau ysgrifenedig, mathemateg, gwyddoniaeth a chelf. Bydd y cystadlaethau byw yn cael eu cynnal yn ddiweddarach yn y tymor.

# Y Siop Gymunedol a’r Hwb




Newyddion da: Mae ein cais i Gynllun Grant Croeso Cynnes am arian i wella’r hwb wedi bod yn llwyddiannus. Mae rhagor o wybodaeth i ddod ond bydd rhan o’r arian yn cael ei ddefnyddio i brynu gemau bwrdd a llyfrau lluniau i ymwelwyr ifanc a ddim mor ifanc eu mwynhau. Felly beth hoffech chi ei weld ar ein silff gweithgareddau? Mae croeso i chi gynnig awgrymiadau ac argymhellion.

Mae’r arian wedi dod trwy Gyngor Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

***Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com***

# Hanesion Hazel

Mae aroglau a blas bara newydd ei bobi yn un o bleserau bach bywyd. Mae pobi bara gartre hyd yn oed yn well, yn rhoi aroglau cynnes, cartrefol i'r tŷ. Roedd fy nain a fy mam yn pobi bara.

Yn ôl hanes, roedd bara'n cael ei wneud tua 8000 CC yn y Dwyrain Canol, yn yr Aifft yn arbennig, felly mae dynol ryw wedi bod yn bwyta bara ers nifer fawr iawn o flynyddoedd.

Roedd fy nain yn gwneud bara yn ystod yr Ail Ryfel Byd a dywedai wrthon ni y byddai'n defnyddio blawd 'cyflawn' yn lle blawd gwyn pan oedd hwn yn brin. Dyma pryd y cyflwynwyd 'y Dorth Genedlaethol' yn 1942, wedi'i wneud o flawd cyflawn gyda fitaminau a chalsiwm wedi'u hychwanegu ato.

Yn anffodus, does gen i mo'r amser i bobi bara gyda llaw, felly fe brynais i beiriant gwneud bara. Mae sawl un yn dweud mai twyllo yw hyn, ond does gen i ddim dewis. Fodd bynnag, rydw i wedi bod heb fy mheiriant gwneud bara ers cyn y Nadolig gan fod nam arno a doedd y bara ddim yn codi. Roedd ffrind a oedd wedi cael y peiriant yma'n anrheg, wedi ei roi i fi, gan ei bod wedi rhoi'r gorau iddi ar ôl gwneud un dorth. Sawl peiriant trydanol sy'n cael eu prynu gyda bwriadau da – wedyn yn cael eu defnyddio unwaith ac yn aros yn y cwpwrdd? Woks trydanol, peiriannu gwneud cappuccino a theclynnau gwneud brechdanau – dyna ychydig ohonyn nhw. Ar ôl cael gwobr yn y gwaith, penderfynais ddefnyddio'r arian i brynu peiriant newydd i wneud bara. Roedd yr ymgais gynta, a gynhyrchodd blob caled o gynhwysion, ddim yn llwyddiannus. Mae'n cymryd amser i ddod i arfer â'ch peiriant gwneud bara, ac o'r diwedd mae pethe'n gwella ac mae'n cynhyrchu torth blawd gyflawn, fy ffefryn.

Yn y bôn, popty bach yw peiriant gwneud bara, â thun bara ynddo. Ar waelod hwnnw mae 'padl'. Mae gan y peiriant amrywiaeth o raglenni, o fara sylfaenol i fara Ffrengig, a thoes pitsa, hyd yn oed. Rydych chi'n rhoi'r holl gynhwysion yn y tun a dyna ni. Bydd y peiriant yn cymysgu'r toes, yn ei dylino, ei adael i godi, ac yn ei bobi i wneud bara meddal hyfryd gyda chrwst crimp.

Cyflwynwyd y peiriant gwneud bara cynta i wneud y cyfan ar unwaith yn Japan yn 1986 gan Matsushita Electric – Panasonic erbyn hyn. Lawer pellach yn ôl yn 1894, cafodd Joseph Lee batent am beiriant tylino. Roedd yn gwneud gwaith chwech o bobl ac yn cynhyrchu 60 pwys yn fwy o fara o bob casgen o flawd nag yr oedd hi'n bosib ei gwneud â llaw. Peiriant chwyldroadol yn ei gyfnod.

Rydw i am barhau i wneud fy mara fy hun gan ei fod yn beth braf i'w wneud ac yn iachach, heb gadwolion – *preservatives* – ac ychwanegion a dwi'n gallu rheoli'r cynhwysion at fy nant i. Mae'n iachach na bara rydych yn ei brynu o siopau – mae lefelau uchel o siwgr a chadwolion yn y rhain sy'n angenrheidiol i gadw'r dorth yn ffres am gyfnod hirach. Efallai y gwna i gystadlu yn yr adran pobi bara yn sioe'r pentre ym mis Awst. Rydw i wedi sylwi bod fy nghŵn wrth eu boddau gyda fy mara hefyd – ychydig ar y tro, wrth gwrs. Pan fydda i'n cael brechdan, maen nhw i gyd yn glafoerio ac yn edrych arna i, yn gwarafun pob cegaid y bydda i'n eu bwyta. Maen nhw'n troi trwynau ar fara o'r siop – weithiau mae anifeiliaid yn gwybod beth sydd o les iddyn nhw hefyd.

Hazel



# Gair gan ein hoffeiriad

Annwyl gyfeillion,

DIOLCH YN FAWR IAWN i chi am eich croeso cynnes iawn wrth i fi ddechrau ar fy weinidogaeth yma. Mae'n gymaint o fraint i wasanaethau'r gymuned fel offeiriad eich plwyf. Dwi'n mwynhau gwrando ar eich stori, gyda'r llawenydd a'r heriau, a gwrando ar eich gobeithion am y dyfodol. Dwi'n fodlon helpu mewn unrhyw ffordd – dewch i ddweud wrtha i sut galla i wneud.

Bob blwyddyn mae ffrind i mi yn cymryd llun bob dydd yn ystod yr Ystwyll ac yn ei roi ar Facebook o dan y teitl, 'cipolwg ar ogoniant'. Eleni mae hi wedi penderfynu tynnu llun bob dydd drwy gydol y flwyddyn nad nad yw hi am roi'r gorau i sylwi ar yr eiliad annisgwyl, rhyfeddol hyn. Mae ei lluniau'n greadigol ac yn brydferth. Y pethau mae hi'n ei gweld o'i chwmpas bob dydd sy'n adlewyrchu'r geiriau 'cipolwg ar ogoniant'. Maen nhw'n rhyfeddol, yn arwyddion cadarnhaol o obaith.




Mae ganddi luniau o olau drwy ei ffenest sy'n edrych fel adenydd angylion ar wal y gegin, pwll o ddŵr yn adlewyrchu'r wybren las a'r cymylau uwch i ben, golau'n dawnsio ar wisgers ei chath, dau yn chwerthin yn y stryd, eirlysiau yn rhoi gobaith am y gwanwyn. Fe dynnais i lun o gipolwg ar ogoniant y bore 'ma. Yr ŵyn cyntaf i mi eu gweld eleni yn prancio o gwmpas y cae ar ddiwrnod oer, tywyll – arwydd o obaith i fi. Dwi wrth fy modd gyda'r lluniau hyn sy'n fy annog i edrych, i weld mewn ffordd wahanol, yn enwedig ar y dyddiau pan dwi'n flinedig ac wedi fy llethu.

Mae arwyddion o obaith yn y byd o'n cwmpas ni, ym mhrydferthwch creadigaeth Duw, yn ein cartref, yn ein cymuned, yn ein byd ac ym mhob un ohonon ni. Arwyddion o Dduw yn gwneud rhywbeth newydd, annisgwyl, yng nghanol yr oll sy'n digwydd yn ein byd cythryblus a'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu yn ein bywydau ni'n hunain hyd yn oed os ydyn nhw'n anodd eu gweld. Yn aml, pan rydyn ni fwyaf bregus, mae sut mae ein cymuned yn dangos cariad a charedigrwydd a thosturi ar yr adegau hyn, yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n taith, yn enwedig trwy adegau anodd a heriol.

Gallwch fod yn siŵr fy mod i yma i chi ac mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech chi gael sgwrs neu os oes angen help arnoch chi. P'un ai a oes gennych chi ffydd ai peidio.


E-bost: samquilty@cinw.org.uk neu ei rhif ffôn: 07546 562816.

*Y Parch. Sam*

TY CEFFYL BACH
Facebook 07768 331488 Instagram
www.tyceffylbach.co.uk
info@tyceffylbach.co.uk
4 Kinmel Terrace, Llandyrnog




- Exclusive hand-forged and crafted horseshoe art
- Unique and quirky gifts to suit all budgets
- **Winter opening hours: 11am-4pm, Thursday–Saturday**



# Dod i adnabod... Myfanwy Williams



**Beth yw'ch atgofion am eich bywyd cynnar?**
Cefais fy ngeni ar fferm yn ardal Dothan, Sir Fôn yn drydydd o bedwar o blant. Roedd fy nghartref yn eithaf diarffordd. Fy atgofion am fy mywyd cynnar yw chwarae o gwmpas y fferm gyda'm brawd a chwaer a chael magwraeth hapus. Pan oeddwn i'n saith oed chwalwyd y cartref gan dân a bu'n rhaid i ni symud yn nes i ganol yr ardal wledig – yma roedd capel, siop a gefail y gof. Roedd mwy o blant o gwmpas i ni gael cydchwarae – pawb yn cyfarfod ar y groesffordd oedd yn ganolog.

**Sut brofiad oedd dyddiau ysgol?**
Roeddwn wrth fy modd yn yr ysgol ar hyd yr amser. Ond roedd un peth yn dipyn o boen i mi yn yr ysgol gynradd, sef ein bod yn cael canu bob pnawn a finna ddim yn gantores! Bûm mewn pedair ysgol uwchradd: dwy yn Sir Fôn –Caergybi a Llangefni; a dwy yn Sir Ddinbych – Brynhyfryd a Dinbych. Llwyddais i ymgartrefu, gwneud ffrindiau, a bod yn hapus ym mhob un.

**Ar ôl gadael yr ysgol?**
Wedi dyddiau ysgol, cael fy nerbyn i'r Coleg Normal, Bangor i wneud cwrs dwy flynedd i gymhwyso fel athrawes. Dechrau fy ngyrfa dysgu yn yr Wyddgrug cyn cael fy adleoli yn 1960 i Fodfari. Priodi yn 1965 gyda Gwilym a gorffen ym Modfari yn 1967 i ddechrau teulu. Deng mlynedd a thri o blant wedyn, dechrau gwneud gwaith llanw yn ysgolion y fro. Cael galwad i fynd i Ysgol Plas Brondyffryn dros gyfnod mamolaeth – un mlynedd ar hugain wedyn roeddwn yn ymddeol oddi yno! Gwirfoddoli hefo Cyngor Ar Bopeth ac yno am bymtheng mlynedd a chael ehangu fy ngwybodaeth. Mwynhau teithio tipyn dramor ac ym Mhrydain. Erbyn hyn rydym yn daid a nain ac mae chel gwarchod yr wyrion a'r wyresau yn fraint ac yn rhoi llawer o bleser.

**Pa lefydd sy'n bwysig neu'n arwyddocaol i chi?**
Gwnaeth ymweld â Phatagonia argraff arnaf oherwydd y croeso cynnes gan bawb a'u hymdrechion i gadw'r iaith Gymraeg yn fyw.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n flin?**
Yr hyn sy'n fy ngwneud yn flin ydyw pobol sy'n cwyno am rywbeth neu'i gilydd yn barhaus heb achos, ac yn negyddol eu hagwedd.

**Beth sy'n codi'ch calon chi?**
Tywydd braf. Cael mynd am dro allan a gweld natur y newid o dymor i dymor. Hefyd cael sgwrs gyda phobl.

**Gyda phwy y byddech chi'n hoffi cael pryd o fwyd, a pham?**
Buaswn yn hoffi cael pryd o fwyd gyda David Attenborough er mwyn cael hanesion ei deithiau a'i fywyd, gan obeithio y byddai'n dod â lluniau hefyd.

*Diolch i Myfanwy am roi ei hanes – rydyn ni wedi cael ar ddeall o le da ei bod yn wych am chwarae hoci pan oedd hi'n iau – mae hi'n rhy ddiymhongar i sôn am hynny!*



# Dirwy am waredu gwastraff yng anghyfreithlon

Mae perchennog busnes yn Sir y Fflint wedi cael dirwy yn dilyn ymchwiliad gan dîm Troseddau Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych. Daeth yr ymchwiliad i safle tipio anghyfreithlon o hyd i eitemau a gafodd eu holrhain i fusnes yn Sir y Fflint. Rhoddwyd rhybudd cosb benodedig iddo fel rhan o ymdrechion parhaus y Cyngor i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon a lleihau gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon ar draws yr ardal.

Mae gan bawb ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod eu gwastraff yn cael ei waredu'n gywir drwy gludwr trwyddedig. Gall tipio anghyfreithlon a gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon gael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd ac mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i'w atal.

Am ragor o wybodaeth am waredu gwastraff ac i wirio a yw cludwr gwastraff yn un trwyddedig, ewch i wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, cyfoethnaturiol.cymru.

**Cymdeithas Hanes Lleol**
**LLANDYRNOG AND LLANGWYFAN**

**Y cyfarfod nesaf:**
**Nos Fercher, 19 Mawrth am 7 o'r gloch yn Neuadd y Pentre**
**'Thomas Pennant, naturalist, traveller and writer'**
**Sgwrs gan Paul Evans**

**Cymanfa Ganu Sul y Blodau**
**13 Ebrill am 5 o'r gloch**
**Capel y Dyffryn, Llandyrnog LL16 4HL**
Arweinydd: Trystan Lewis
Organydd: Rhys Roberts
Bydd casgliad tuag at Gofal Dydd y Waun a chronfa adeiladau Capel y Dyffryn
*Am ragor o fanylion, cysylltwch â Bryn Davies: 07585 170592*

# Pwyllgor Cyswllt MHC

Yn y cyfarfod ddydd Gwener, 24 Ionawr, trafodwyd y materion canlynol:

⇒ **Gweithredu ers y cyfarfod diwethaf**
O ran goleuo, mae'r adroddiad awyr dywyll wedi dod ac mae'r tîm ystadau yn ei adolygu. Mae MHC wedi cael arian ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo i newid y goleuadau lle mae'r angen.

Mae arwyddion ychwanegol wedi'u gosod ar gyfer Tŷ Alexandra a Mynedfa B.

Unwaith eto, mae'r mater ynghylch sbwriel, sy'n cynnwys menig glas, wedi'i godi gyda'r rheolwyr perthnasol, er mwyn rhoi gwybod i'r staff i gyd.

⇒ **Y newyddion diweddaraf am y safle**
Roedd digwyddiad recriwtio staff yn digwydd ar yr un diwrnod ac yn denu diddordeb. Adeg ycyfarfod, roedd tua 320 o aelodau staff ar y safle, a thua 40 mewn swyddi gweinyddol a chynnal a chadw.

⇒ **Nifer y preswylwyr**
Roedd 70 o'r 72 gwely sydd ar gael yn cael eu defnyddio, ac mae'r ddau arall yn mynd i gael eu cymryd yn fuan.

⇒ **Materion cymunedol**
Mae angen clo addas ar y gât ger Mynedfa C oherwydd ei fod yn cael ei adael ar agor weithiau. Mae hyn yn creu problemau wrth symud defaid o'r naill gae i'r llall.

Cafwyd trafodaeth am y problemau ynghylch traffig. Soniodd David Jones o Heddlu Gogledd Cymru am ddigwyddiadau lleol diweddar. Cafwyd cadarnhad bod dyfeisiau tracio ar gerbydau MHC.

Roedd y grŵp yn falch o weld bod Highfield Park wedi darparu erthyglau i *Llais Llandyrnog*, sy'n fanteisiol i bawb.

Mae llai o nwyddau wedi'u danfon i'r mannau anghywir yn ddiweddar, a'r farn oedd bod hyn oherwydd yr arwyddion newyddion sydd wedi'u gosod.

# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Chwefror o Gyngor Cymuned Llandyrnog

- Daeth Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Dave Jones, i'r cyfarfod ac yn ei adroddiad dywedodd fod pum digwyddiad wedi'u cofnodi yn y plwyf. Roedd y rhain yn cynnwys ymosodiad, ymddygiad anghymdeithasol ar y cae MUGA, anghydfod sifil, sgâm e-bost ac aflonyddu ar-lein drwy blatfform cymdeithasol.
- Dywedodd hefyd fod yr heddlu wedi cael adroddiadau am gerbydau amheus yn chwilio am drelars neu garafanau y gallen nhw eu dwyn yn ddiweddarach. Roedd y Swyddog yn annog pawb i ddefnyddio offer priodol i ddiogelu unrhyw beth mae'n bosib ei dynnu oddi yno, a hefyd i riportio digwyddiadau tebyg i'r heddlu drwy ffonio 101, gan gynnwys rhif cofrestru'r cerbyd. Mae'r heddlu'n dibynnu'n helaeth ar wybodaeth leol.
- Mae'r Cyngor Cymuned wedi cael grant 100% drwy Digidol Gwyrdd/Coleg Menai Llandrillo i ddiweddaru'r gwresogyddion a'r goleuadau yn yr Ystafelloedd Coco. Y contractwr lleol, Peter Jones, sydd wedi gwneud y gwaith i sicrhau bod y Cyngor yn gwario'r arian yn lleol. Mae'r bunt leol yn bwysig iawn.
- Roedd y CC hefyd yn llwyddiannus yn ei gais am becynnau ardaloedd gwyrdd/gerddi drwy Cadw Cymru'n Daclus. Bydd dau becyn gwerth £576 yn dod yn fuan a byddwn yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu ni.
- Er bod Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) wedi ceisio trwsio rhai o'r tyllau niferus yn y ffyrdd yn yr ardal, mae'n siomedig iawn nad yw'n gallu rhannu gwybodaeth am waith cyfalaf lle mae angen wyneb cyfan gwbl newydd ar ffyrdd.
- Bydd y fainc newydd yn cael ei gosod pan fydd llwyth gwaith Jones Bros yn caniatáu hynny. Edrychwn ymlaen at gael man i orffwys hanner ffordd rhwng y pentref a chylchfan y Waen!
- Testun siom oedd bod CSDd wedi peidio â darparu'r rhyngrwyd yn yr Ystafelloedd Coco am ddim, a hyn ar ôl ei ddefnyddio am dair blynedd. Mae wedi cynnig darparu'r gwasanaeth am £488 y flwyddyn – nid yw'r swm hwn yn y gyllideb. Mae'r CC yn chwilio am ddewis arall neu ostyngiad yn y tâl i CSdd.
- Mae Awdit Terfynol y CC wedi'i dderbyn ac yn gywir.
- Roedd wythnos olaf mis Chwefror yn wythnos Awyr Dywyll a theithiau tywys yn mynd i fyny Pen y Cloddiau – gan ddibynnu ar y tywydd.
- Roedd y cadeirydd wedi bod i gyfarfod yr AHNE a'r dyhead oedd y byddai Parc Cenedlaethol ychwanegol yn bod cyn diwedd tymor presennol y Senedd yn 2026, gan fod hyn yn maniffesto'r Blaid Lafur.
- Cafwyd cais am offer chwarae yng Nghae Nant sy'n haws i blant ag anghenion ychwanegol eu defnyddio. Yn anffodus, ar hyn o bryd does dim digon o arian yn coffrau i wneud hyn. Ond fe gytunwyd y bydd y CC yn gwneud cais am arian pan fydd y cyfraniadau o'r datblygiadau lleol wedi'u rhoi i GSDd – yr arian a roddir yn lle darparu meysydd chwarae.


**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*


*Argraffwyd gan Mike Neuman www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*